**Grant Busnes Fferm - Y Cynllun Gorchuddio Iardiau**

SESIWN HOLI AC ATEB

1. **A oes uchafswm trosiant pan fyddwch yn gwneud cais am y grant hwn?**
   Oes. Yr uchafswm trosiant busnes er mwyn gallu bod yn gymwys i dderbyn Grant Busnes Fferm - Y Cynllun Gorchuddio Iardiau yw £1.0m

2. **A oes angen i mi ddeall p'un a ydw i wedi fy lleoli mewn ardal lle mae ansawdd neu gyfaint dŵr yn flaenoriaeth cyn gwneud cais?**
   Na. Nid oes angen i chi fod wedi'ch lleoli mewn ardal lle mae ansawdd neu gyfaint dŵr yn flaenoriaeth er mwyn bod yn gymwys i wneud cais.

3. **A oes angen sylfaen anhydraidd ar y storfa tail buarth er mwyn bod yn gymwys?**
   Oes. Er mwyn bod yn gymwys, mae angen i'r storfa fod yn cael ei ddefnyddio fel storfa bresennol gyda llawr nad yw dŵr yn gallu treiddio trwyddo e.e. concrit.

4. **A yw pyllau derbyn yn gymwys?**
   Ydyn. Mae pyllau derbyn yn gymwys, byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn storfeydd slyri presennol.

5. **Beth os nad yw'r slyri/dŵr ffo yn mynd i'r system slyri ar hyn o bryd, a oes modd gwneud cais?**
   Oes, ar yr amod y gellir cyfeirio'r slyri i storfa slyri bresennol a bod modd darparu tystiolaeth o hynny drwy ffotograffau geo-tag.

6. **Os oes gen i storfa tail buarth, ond dim pwll slyri, a oes modd i mi roi to uwchben y storfa tail buarth heb fod angen pwll slyri?**
   Oes. Ar ôl ei gwblhau, rhaid dargyfeirio dŵr ffo o'r storfa tail i storfa slyri neu bwll derbyn presennol. Os nad oes storfa slyri na phwll derbyn ar gael ar hyn o bryd, neu os mae ei leoliad yn golygu nad yw'n bosibl dargyfeirio dŵr ffo i'r storfa, bydd angen i'r strwythur allu dal yr holl elifiant. Bydd angen tystiolaeth o hyn trwy ffotograffau â geotag. Os bydd y to newydd neu newidiadau i'r strwythur sy'n ofynnol i gynnwys yr holl elifiant yn arwain at yr angen i ehangu neu ailadeiladu'r storfa yn sylweddol, rhaid i chi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 14 diwrnod cyn dechrau defnyddio'r storfa newydd, sydd wedi'i hehangu neu wedi'i hailadeiladu'n sylweddol.

   https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/farming/good-farming-practice/?lang=cy

7. **A oes angen waliau o amgylch y storfa dail, ac os felly, pa fath o waliau, ac a fydd y grant yn cefnogi'r gost?**
   Ar ôl ei gwblhau, bydd angen i'r storfa dail ddal yr holl elifiant, a bydd angen waliau er mwyn gwneud hynny, neu system sy'n casglu ac yn dargyfeirio unrhyw ddŵr ffo i storfa slyri bresennol. Mae'r grant yn cefnogi adeiladu'r to yn unig, nid y waliau na'r cladin.

8. **A yw ardaloedd trin a bwydo defaid yn gymwys?**
   Ydyn, ar yr amod bod y llawr yn anhydraidd a bod y slyri o'r ardal yn cael ei ddargyfeirio i storfa slyri bresennol.

9. **A fyddai storio byrnau mawr ar lawr concrit yn gymwys pan fo tanc elifiant ar gael i gasglu'r dŵr oddi ar y llawr concrit?**
   Na, nid yw ardaloedd ar gyfer storio byrnau silwair yn gymwys.

10. **Sut ydych chi'n profi bod y slyri yn mynd i'r storfa slyri?**
    Rhaid darparu hyn trwy ffotograffau â geotag. (Efallai y bydd angen cyfres o ffotograffau.)

11. **A yw'r grant yn talu costau Systemau Draenio Cynaliadawy (SDCau)?**
    Mae cymeradwyaeth SDCau yn ofyniad rheoliadol. O'r herwydd, ni chefnogir costau paratoi cais am gymeradwyaeth SuDS trwy'r grant.

12. **A fyddai gosod to dros storfa silwair a adeiladwyd cyn 1991 yn gymwys?**
    Byddai, ond byddai angen i ymgeiswyr hysbysu CNC o unrhyw newidiadau i strwythur y waliau neu'r llawr a allai effeithio ar adeiladwaith bresennol y storfa sydd wedi'i eithrio o reoliadau SSAFO.

13. **Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am SSAFO?**
    Mae gwybodaeth ar gael yma:
    https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-11/storio-silwair-a-slyri.pdf

14. **Mae gen i system trin gwartheg a defaid ochr yn ochr â'r storfa tail/slyri, ac mae'r holl ddŵr ffo yn mynd i'r storfa slyri. A oes modd gorchuddio hwn yn ogystal â'r storfa slyri?**
    Oes, cyhyd â bod yr holl slyri a gynhyrchir o'r ardaloedd hyn yn mynd i mewn i'r storfa slyri. Bydd angen cwblhau ceisiadau ar wahân yn ystod y cyfnod datgan diddordeb.

15. **A allwch chi wneud cais cyn sicrhau caniatâd cynllunio?**
    Gallwch. Fodd bynnag, byddem yn eich annog yn gryf i ddechrau'r prosesau cynllunio a SDCau cyn gynted â phosibl. Gallwch wneud hyn cyn cyflwyno datganiad o ddiddordeb heb iddo effeithio ar eich cymhwysedd i wneud cais i'r cynllun.

16. **Oes rhaid i chi gael dyfynbrisiau ar gyfer gwaith i gyd-fynd â'r cais?**
Rydym yn argymell eich bod yn cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith yr ydych am ei wneud, fodd bynnag, nid ydynt yn orfodol at ddibenion ymgeisio. Dim ond tystiolaeth o gostau sydd wedi cael eu hanfonebu ac ar ôl tynnu ffotograffau â geotag o’r gwaith gorffenedig sydd ei angen er mwyn hawlio.

17. **Gan y byddai'r to yn cael ei ariannu gan grant, a oes unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r to yn y dyfodol, yn benodol o ran gosod paneli solar?**
Rhaid defnyddio'r to at y diben a fwriadwyd a nodir o fewn rheolau’r cynllun am gyfnod o bum mlynedd o leiaf o’r dyddiad y telir yr hawliad. Fodd bynnag, ar yr amod bod y to yn dal i allu cyflawni'r swyddogaeth y derbyniwyd cefnogaeth ar ei gyfer, gallwch osod paneli solar cyn diwedd y cyfnod pum mlynedd hwn.

18. **Os mae ffermwr wedi llwyddo i dderbyn contract Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, a fyddai’n gymwys i dderbyn y Grant Busnes Fferm - Y Cynllun Gorchuddio Iardiau?**
Byddai. Ceir esboniad o hyn ar dudalen 2 o’r rheolau a chanllawiau Grant Busnes Fferm - Y Cynllun Gorchuddio Iardiau.

19. **A fyddai modd gorchuddio corlannau sglodion coed sydd yn yr awyr agored?**
Na, nid yw siediau da byw yn gymwys.

20. **Allwch chi osod gorchudd dros bwll slyri, yn hytrach na tho?**
Na. Mae’r toeau wedi cael eu nodi a’u prisio yn unol â manyleb nad yw’n cyfateb â phris gorchudd ar gyfer storfa slyri.

21. **Ar hyn o bryd nid oes gennym ardal ar gyfer casglu slyri. Mae gennym ni iard fechan, a dim ond tail yr ydym ni’n ei gynhyrchu. Ydych chi'n credu y bydd grant ar gyfer dal slyri yn y dyfodol?**
Bydd. Mae rownd arall o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy wedi'i gynllunio, a disgwylir y bydd y cyfnod datgan diddordeb rhwng 1 Chwefror a 12 Mawrth 2021.

22. **Os ydych chi’n bwydo silwair mewn ardal sy’n cynnwys y clamp a’r ardal fwydo, sut mae nodi hynny?**
Bydd mwyafrif y slyri a gynhyrchir o'r ardal hon yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i’r gweithgaredd bwydo, a byddai’r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried fel ardaloedd bwydo stoc. Byddai angen darparu tystiolaeth ar ffurf ffotograffau â geotag o’r ardal yn cael ei ddefnyddio ar gyfer bwydo.

23. **A allwn ni hawlio os ydym ni eisoes wedi prynu’r gwaith dur i adeiladu to ond heb allu fforddio gorffen gosod y dalenni?**

Na. Dim ond os bydd tystiolaeth o brynu’r deunydd toi ar ôl derbyn y contract y gellir talu hawliadau’r Grant Busnes Fferm – Y Cynllun Gorchuddio Iardiau.

24. **A allwch chi hawlio am storfa slyri dan do a man bwydo dan do yn yr un hawliad?**
Gallwch, ond byddai angen gwneud cais ar gyfer yr ardaloedd fel eitemau ar wahân pan fyddwch yn cyflwyno’r datganiad o ddiddordeb a’r hawliad ar ôl hynny.

25. **A oes rhaid i chi dynnu llun o lwybr y slyri i’r storfa neu os mae’n cael ei symud gan ddefnyddio llwythwr pen blaen?**
Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod yr holl slyri o’r ardal sydd wedi’i orchuddio’n cael ei ddargyfeirio i storfa bresennol. Bydd angen tystiolaeth o’r storfa slyri bresennol.

26. **Os oes gen i iard wartheg na ellir ei orchuddio’n llwyr, a oes rhaid i mi roi to ar 100% o’r iard er mwyn sicrhau’r grant?**
Na. Gellir gosod to ar gyfran o’r iard cyhyd â bod yr ardal honno’n bodloni gofynion y cynllun.

27. **Beth yw'r diffiniad o ardal fwydo da byw? A oes rhaid iddo fod yn ardal sy'n cael ei defnyddio i fwydo am nifer penodol o ddyddiau'r flwyddyn?**
Bydd yr ardal fwydo da byw yn ardal a ddefnyddir yn ystod misoedd y gaeaf i fwydo da byw.

28. **A allwch chi wneud cais ar gyfer gorchuddio dwy storfa dail o fewn yr un cais grant?**
Gallwch. Ar yr amod bod y ddwy ardal yn cael eu gwahanu fel rhan o’r cais datganiad diddordeb a’r hawliad a bod y ddwy ardal yn bodloni’r un meini prawf. Bydd angen ffotograffau â geotag ar wahân.

29. **Beth yw'r gyllideb ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn?**
Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cyfnod y Grant Busnes Fferm - Cynllun Gorchuddio Iardiau cyntaf yw £1.5m.

30. **A fydd unrhyw rowndiau pellach?**
Bydd yr ail gyfnod ymgeisio yn agor ar 18 Mai 2021 ar gyfer datganiadau o ddiddordeb i’w derbyn erbyn 25 Mehefin 2021. Dyrennir cyllideb o £2.0m ar gyfer yr ail rownd.

31. **Beth yw'r gyfradd taliadau/grant?**
Uchafswm y dyfarniad grant yw £12,000 a'r isafswm yw £3,000. Cyfradd y grant yw cyfraniad o uchafswm o 40% tuag at offer cyfalaf safonol wedi’i gostio. Y gyfradd dalu wirioneddol fydd £36 am bob metr sgwâr o orchudd a osodir, hyd at yr uchafswm o £12,000.

32. **A allwn ni wneud cais am eitemau eilaidd yn unig? Ee systemau casglu dŵr glaw.**
Prif amcan y rhaglen yw gorchuddio'r iardiau presennol. Ni fydd eitemau eilaidd yn cael eu cefnogi heblaw bod eitem cynradd (gorchudd iardiau) wedi cael ei ddewis.

33. **A yw'r eitemau eilaidd wedi'u cynnwys yn y grant uchaf o £12,000?**
Ydyn. Mae'r eitemau eilaidd wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r terfynau gwerth grant cymwys.

34. **Allwch chi brynu ffrâm sied ail law i orchuddio pwll slyri?**
Na. Nid yw eitemau ail law yn gymwys i gael cymorth grant Grant Busnes Fferm – Cynllun Gorchuddio Iardiau.

35. **A fyddai modd i'r ffermwr gwblhau'r gwaith?**
Byddai. Gall ffermwyr gwblhau'r gwaith cyfalaf, ond mae angen iddynt sicrhau bod yr holl ofynion a'r safonau a nodir yn y canllawiau Grant Busnes Fferm - Cynllun Gorchuddio Iardiau yn cael eu bodloni.

Dylai pob adeilad gwrdd â safon BS 5502 rhan 22:2013. Ar gyfer unrhyw strwythurau nad ydynt wedi'u marcio â CE, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos cydymffurfiad â BS 5502 rhan 22:2013 trwy ddarparu cyfrifiadau strwythurol gan beirianwyr â chymwysterau addas.

36. **Beth yw ffotograffau â geotag?**
Mae ffotograff â geotag yn cynnwys lleoliad, dyddiad ac amser yn y data ffotograff. Bydd y mwyafrif o ffonau symudol sydd â chysylltiad rhyngrwyd a chamera yn cofnodi manylion GPS yn awtomatig. Maent hefyd yn cofnodi'r dyddiad a'r amser y tynnwyd y ffotograff.

Bydd data yn ymwneud ag amser a lleoliad y ffotograffau a fyddwch yn eu huwch lwytho o'r gwaith wedi'i gwblhau yn cael eu cymharu gyda'ch contract Grant Busnes Fferm - Cynllun Gorchuddio Iardiau. Bydd hyn yn ein caniatáu i wirio eich cais a sicrhau bod y gwaith cyfalaf wedi cael ei gwblhau fel y cytunwyd ac o fewn cyfnod y contract.
Mae arweiniad llawn ar gyflwyno ffotograffau â geotag ar gael trwy:
https://llyw.cymru/grant-busnes-i-ffermydd-gorchuddio-iardiau-canllawiau-ffotograff-geotag

37. **A oes rhaid tynnu ffotograffau â geotag ar ôl derbyn y contract?**
Mae angen ffotograffau â geotag yn ystod y cam mynegi diddordeb a'r cam hawlio.

38. **A oes modd derbyn cefnogaeth ar gyfer toeau sydd angen eu hatgyweirio?**

Na, mae’n rhaid i bob to fod yn newydd a chael ei ddefnyddio i orchuddio ardaloedd nad oedd wedi’u gorchuddio’n flaenorol. Nid yw amnewid strwythurau to presennol yn gostau cymwys.

39. **Os mae storfa slyri’n dal llai na gwerth pedwar mis o slyri, a yw hynny’n gwneud y storfa slyri’n anghymwys ar gyfer y cynllun?**

Nid oes rhaid i chi gydymffurfio â SSAFO i wneud cais am strwythurau nad ydynt wedi'u cysylltu â storfa slyri neu silwair. Os bydd y to newydd yn ychwanegu at storfa bresennol neu’n arwain at ehangu neu ailadeiladu’r storfa’n sylweddol, mae’n rhaid i chi hysbysu CNC 14 diwrnod cyn dechrau defnyddio’r storfa newydd, sydd wedi’i hehangu neu wedi ei hailadeiladu’n sylweddol.

https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/farming/good-farming-practice/?lang=cy

40. **Beth os mae’r iard yn fwy na’r metrau sgwâr sydd ar gael fel rhan o’r grant?**

Penderfyniad yr ymgeisydd unigol yw p'un a ddylid gwneud cais am gefnogaeth drwy’r Grant Busnes Fferm - Cynllun Gorchuddio Iardiau. Fodd bynnag, os penderfynwch wneud cais am grant ar gyfer ardal a fydd yn costio mwy na’r uchafswm o £12,000, dim ond hyd at yr uchafswm o £12,000 y byddwch chi’n cael eich talu.

41. **Oherwydd bod gwneuthurwyr sied/toi ac adeiladwyr siediau mor brysur, beth sy'n digwydd pe na bawn i'n gallu cael unrhyw un i adeiladu/codi'r sied o fewn blwyddyn?**

Os byddwch chi’n credu eich bod yn debygol o ddod ar draws problemau a allai effeithio ar eich gallu i gwblhau’r gwaith a hawlio erbyn y dyddiad cau a nodwyd, fe’ch cynghorir i roi gwybod i RPW (Taliadau Gwledig Cymru) cyn gynted â phosibl. Rhowch esboniad mor fanwl ag y gallwch. Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei hystyried yn ôl ei theilyngdod fesul achos.

42. **Sut allwn ni ddod o hyd i wybodaeth bellach ar fapiau ansawdd dŵr ar gyfer sgorio?**

Mae'r mapiau amcanion ardaloedd blaenoriaeth ansawdd a chyfaint dŵr yr un fath â’r rhai a ddefnyddir ar gyfer Glastir Uwch. Diweddarwyd deunyddiau’r cynllun Grant Busnes Fferm - Cynllun Gorchuddio Iardiau gyda dolen i’r rhain ar dudalen 14. Dyma'r ddolen:

https://llyw.cymru/map-sgorio-glastir-uwch

Mae dwy ffordd o ddefnyddio’r mapiau hyn. Gallwch naill ai ddal y cyrchwr uwchben yr ardal ar waelod y sgrîn a bydd bar offer yn ymddangos - dewiswch yr eicon pdf a dylai bar offer arall ymddangos ar ochr chwith y sgrîn. Dewiswch yr opsiwn haenau. Rydym yn awgrymu eich bod yn

ehangu'r holl haenau ac yn diffodd pob haen heblaw am yr haen ar gyfer yr ansawdd a chyfaint dŵr perthnasol yn yr ardal yr ydych am wybod amdani.

Os nad yw dal y cyrchwr uwchben yr ardal ar waelod y dudalen yn gweithio, yna ewch i 'file'> 'save as'> dewis pdf ar gyfer y math o ffeil, a chlicio ‘save’. Unwaith y byddwch wedi agor y fersiwn yr ydych wedi’i arbed, bydd y bar offer yn ymddangos ar ochr chwith y dudalen a gallwch wneud yr un fath â’r hyn a nodir uchod.